

Adran A

Proses Gwynion Undeb Myfyrwyr Aberystwyth

1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r broses ar gyfer cyflwyno cwynion yn erbyn yr Undeb neu unrhyw aelod o'i staff (gan gynnwys Swyddogion sy'n Ymddiriedolwyr) neu unrhyw Aelod sy'n Fyfyriwr, Aelod Cyswllt, neu'n Aelod Oes neu Aelod er Anrhydedd o'r Undeb.

1.2 Lle gwneir cwyn o dan y weithdrefn hon am aelod o staff Undeb y Myfyrwyr, fe'i trafodir gyda'r Prif Weithredwr. Os ystyrir y gallai'r gweithredoedd honedig gan yr aelod staff fod yn enghraifft o gamymddygiad, caiff ei ymchwilio yn unol â Gweithdrefn Ddisgyblu Prifysgol Aberystwyth.

1.3 Os yw'r gŵyn mewn perthynas ag etholiadau Undeb y Myfyrwyr, dylid cyfeirio hyn at y Swyddog Etholiadau penodedig a/neu'r Dirprwy Swyddog Etholiadau ddelio â hi yn unol â Rheoliadau Etholiad Undeb y Myfyrwyr.

2. Cam Un

2.1 Lle bo'n bosibl, bydd cwynion yn cael eu datrys mor agos at darddiad y gŵyn â phosib. Bydd pob parti yn cymryd ymagwedd adeiladol gyda'r bwriad o ddarparu ateb a datrysiad derbyniol.

2.2 Os ydych wedi dilyn yr ymagwedd hon, a bod yr achwynydd yn dal i gredu nad yw eu pryderon wedi cael sylw priodol, neu os yw'r gŵyn yn arbennig o ddifrifol neu'n gyfrinachol, yna bydd y gŵyn yn symud ymlaen i gam dau, a ddisgrifir isod.

3. Cam Dau

3.1 Bydd cwynion a dderbynnir gan y sefydliad yn cael eu harchwilio a'u harwain gan y Rheolwr Adran priodol mewn perthynas â natur y gŵyn. Gellir cyflwyno cwynion drwy ddefnyddio ffurflen Gwynion Undeb y Myfyrwyr ar-lein neu mewn e-bost sy'n cwmpasu'r pwyntiau a amlinellir yn y ffurflen a'i anfon at undeb@aber.ac.uk.

3.2 Bydd Rheolwr yr Adran yn ffurfio panel, a fydd fel rheol yn cynnwys:

- a. Rheolwr yr Adran
- b. Dau Swyddog Ymddiriedolwr heb gynnwys y Llywydd

4. Panel Cwynion

4.1 Rhaid i'r panel gysylltu â'r achwynydd, neu drefnu cyfarfod, er mwyn deall natur y gŵyn yn llawn.

4.2 Yna bydd y panel yn adolygu'r gŵyn i benderfynu a oes achos y gellir ei ateb neu a yw'r gŵyn yn cael ei gwrthod. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys achosion yr ymdriniwyd â hwy eisoes a'u cau drwy broses gyffelyb neu lle mae cwmpas cwyn y tu hwnt i gyfyngiadau'r broses ei hun.

4.3 Os cytunir bod achos i'w ymchwilio, cyflwynir crynodeb o'r gŵyn i'r unigolion a enwir gan yr achwynydd, cyn i'r panel gwrdd â nhw er mwyn dod i ddeall unrhyw safbwyntiau eraill.

4.4 Yn y naill achos a'r llall, dylid hysbysu pawb sy'n gysylltiedig â'r gŵyn bod cyfle iddynt ddarparu gwybodaeth ychwanegol i'r panel ar ôl y cyfarfod cychwynnol.

4.5 Bydd y panel yn cwrdd â phartïon eraill yn ôl eu disgrisiwn lle maen nhw'n credu y gallai unigolyn fod wedi bod yn dyst i unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â'r gŵyn.

4.6 Lle mae'r panel yn cwrdd â myfyrwyr, mae gan unrhyw fyfyrwr hawl i fynd â chyd-fyfyriwr gyda nhw am gefnogaeth.

4.7 Yn achos cwyn a wneir yn erbyn grŵp o fyfyrwr, clwb neu gymdeithas, bydd y llywydd neu'r cadeirydd (neu enwebai) yn cynrychioli'r grŵp, y clwb neu'r gymdeithas.

4.8 Os bydd unigolyn (neu gynrychiolydd grŵp o fyfyrwr) a enwir gan yr achwynydd yn methu â mynychu cyfarfod, gan gynnig rheswm derbynol, yna gellir gohirio'r cyfarfod. Os yw'r panel yn teimlo bod yr unigolyn wedi methu â mynychu dau gyfarfod a drefnwyd heb achos rhesymol, yna bydd yr ymchwiliad yn parhau hebddynt.

4.9 Rhaid i'r panel:

a. barnu'r cwyn a phenderfynu, ar sail tebygolrwydd, a yw unigolyn neu grŵp wedi gweithredu mewn modd sy'n amhriodol / yn groes i ymddygiad disgwylledig.

b. gwneud penderfyniad ar unrhyw gamau o ganlyniad i hyn.

4.10 Yn ystod y cyfnod rhwng derbyn y gŵyn ac unrhyw benderfyniad gan y Panel Cwynion, bydd gan y troseddwr honedig, yn ôl disgresiwn Pennaeth yr Adran, fynediad at wasanaethau neu gyfleusterau sydd wedi'u hatal cyn belled a bo hynny'n angenrheidiol er mwyn cynnal ymchwiliad effeithiol. Dylid ystyried hyn mewn perthynas â'r risg o niwed neu ofid i staff neu fyfyrwyr neu lle byddai'n bosibl y gallai parhau i gael mynediad i wasanaeth neu gyfleuster effeithio ar ymchwiliad effeithiol.

5. Llwybrau Gweithredu

5.1 Gall y panel ddod i'r casgliad, ar ôl ystyried sylwadau priodol gan bawb sy'n gysylltiedig â'r achos, bod cwyn yn cael ei gwrthod, ei gadarnhau'n rhannol neu ei gadarnhau yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad i gŵyn yn cael ei gadarnhau'n rhannol neu yn ei gyfanrwydd, gall y panel wneud cais am un neu ragor o sancsiynau yn erbyn yr unigolyn neu'r grŵp dan sylw:

a. cerydd ysgrifenedig; a / neu

b. atal unrhyw freintiau sy'n perthyn i aelodaeth yr Undeb neu'r cwbl ohonynt, a fydd, er mwyn osgoi amheuaeth, ddim yn cynnwys diswyddo unrhyw berson a etholwyd drwy bleidlais draws-gampws; a / neu

c. gwaharddiad am oes, a fydd yn golygu gwaharddiad cyfangwbl o adeiladau'r Undeb ar unrhyw adeg. Ni fydd hyn yn ymyrryd ag ymrwymadau academiaidd neu arholiadau allanol sy'n digwydd yn yr Undeb; a / neu

d. os yw'r drosedd wedi'i chyflawni gan aelod sy'n Fyfyriwr ac os canfyddir bod y trosedd yn ddigon difrifol, rhaid i'r Myfyriwr gael ei gyfeirio at God Disgyblu Myfyrwyr y Brifysgol. Unwaith y bydd y Brifysgol yn cael gwybod am hyn, bydd y Myfyriwr yn dod dan awdurdod Gweithdrefnau Disgyblu'r Brifysgol; a / neu

e. lle caiff y gŵyn ei chadarnhau yn erbyn grŵp o fyfyrwr, caiff breintiau aelodaeth eu hatal, a chyflwynir diffyg hyder yn y Pwyllgor presennol ar unwaith (bydd grwpiau'n derbyn cefnogaeth er mwyn ail-ethol rolau allweddol yn yr achos hwn); a / neu

f. lle caiff y gŵyn ei chadarnhau yn erbyn grŵp o fyfyrwyr, gall unigolion mewn swyddi â chyfrifoldeb neu'r aelodaeth yn ehangach fod yn destun gweithredu fel unigolyn; neu

g. gellir gwrthod yr honiadau.

5.2 Bydd y panel cwynion yn darparu eglurhad ysgrifenedig o'r penderfyniad i'r unigolyn a / neu grŵp o fyfyrwyr sydd dan sylw.

6. Amserlen

6.1 Dylai'r panel geisio sicrhau bod ymchwiliad yn digwydd yn ddioed. Byddai hyn fel rheol yn golygu ceisio dod i benderfyniad a chyfathrebu'r canlyniadau i'r unigolion neu'r grwpiau dan sylw o fewn 21 diwrnod.

7. Apeliadau

7.1 Gall yr unigolyn neu'r grŵp y dyfarnwyd yn eu herbyn wneud apêl ar y sail ganlynol:

- a. Nid yw'r broses Gwynion wedi dilyn y weithdrefn gywir a / neu;
- b. Daeth gwybodaeth newydd i'r golwg na ellid bod wedi'i chyflwyno am reswm da yn ystod y Broses Gwynion ar adeg yr ymchwiliad gwreiddiol; a / neu
- c. Mae'r camau a weithredwyd o ganlyniad i'r ymchwiliad yn anghymesur.

7.2 Dylid cyflwyno apêl mewn ysgrifen i Lywydd Undeb y Myfyrwyr o fewn 7 diwrnod calendr o dderbyn canlyniad yr ymchwiliad.

7.3 Ymdrinnir â phob apêl yn unol ag Adran C o Atodlen 3.

8. Gweithredu Pellach

8.1 Gall bod angen ystyried camau disgyblu yn erbyn aelodau staff o ganlyniad i faterion sy'n cael eu dwyn i sylw'r Undeb drwy gŵyn. Mewn achosion o'r fath, rhaid ystyried camau disgyblu yn unol â Pholisi Disgyblaeth y Cwmni.

Adran B

Proses Ddisgyblu Undeb Myfyrwyr Aberystwyth

9. Rhagarweiniad

9.1 Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r broses a ddefnyddir gan yr Undeb i ymchwilio a gweithredu gydag unigolion neu grwpiau parthed ymddygiad amhriodol ac mae'n berthnasol i bob unigolyn sydd ag aelodaeth fel Myfyriwr, yn Aelod Cyswllt, neu'n Aelod am Oes er Anrhydedd o Undeb y Myfyrwyr. Mae holl aelodau'r Undeb yn atebol i'r cod disgyblu a'r safonau ymddygiad hyn tra byddant:

- a. ar safle'r Undeb; a / neu
- b. yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd dan nawdd yr Undeb, gan gynnwys ymddygiad wrth gyfranogi mewn unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â grwpiau, clybiau neu gymdeithasau myfyrwyr.

10. Safonau ymddygiad disgwylidig

10.1 Mae'r Undeb yn disgwyl i aelodau a gwesteion yr Undeb ymgysylltu'n gadarnhaol â myfyrwyr, staff ac ymwelwyr â'r Brifysgol a'r Undeb wrth iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau ac ymwneud â gweithgareddau a ddarperir neu pan fydd modd eu hadnabod fel cynrychiolydd o'r sefydliad.

10.2 Byddai'r canlynol (rhestr nad yw'n gynhwysfawr) yn cael eu hystyried yn enghreifftiau lle mae safon ymddygiad aelodau yn fater o bryder, ac felly gallai arwain at gamau disgyblu os caiff ei ganfod:

- a. ymddygiad sy'n achosi neu'n debygol o achosi niwed corfforol i eraill;
- b. unrhyw fath o aflonyddu, gwahaniaethu anghyfreithlon neu fwlio eraill;
- c. ymddygiad meddw ac afreolus;
- d. meddiannu neu werthu cyffuriau anghyfreithlon;
- e. dwyn anfri ar yr Undeb;
- f. dwyn neu dwyll;
- g. difrod bwriadol i eiddo;
- h. torri unrhyw delerau aelodaeth o grwpiau, clybiau neu gymdeithasau myfyrwyr;
- i. torri unrhyw Bolisiau neu Is-ddeddfau'r Undeb

10.3 Yn ychwanegol at y rhestr uchod, byddai'r Undeb hefyd yn cyfeirio at y Rheolau Ymddygiad fel y'u nodir yng Ngweithdrefn Disgyblaeth Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

10.4 Mae'n bosibl cyflwyno adroddiadau am achosion honedig o weithredu'n groes i'r cod ymddygiad hwn i unrhyw aelod o staff, neu swyddog, neu drwy ddefnyddio ein ffurflen gwynion.

11. Asesiad Cychwynnol

11.1 Unwaith y ceir gwybod am unrhyw ymddygiad honedig sy'n groes i'r rheolau, penodir Rheolwr Adran i ystyried y mater. Yn y cam cychwynnol, bydd y Rheolwr perthnasol hwn yn asesu a yw:

- a. Yr honiad yn ymwneud ag ymddygiad aelod o'r Undeb
- b. Yr honiad yn ymwneud ag ymddygiad gan yr unigolyn hwnnw yn rhinwedd bod yn aelod o'r Undeb
- c. Yr honiad yn ymddangos i fod yn enghraifft o ymddygiad y gellid ei ystyried yn groes i'r safon ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau

11.2 Lle caiff yr holl feini prawf hyn eu diwallu, bydd panel ymchwilio yn cael ei ffurfio. Os na chyflawnir unrhyw un o'r uchod, ni fydd y mater yn cael ei ystyried o dan y broses ddisgyblaeth a bydd y mater yn cael ei ollwng.

12. Ymchwiliad

12.1 Bydd panel ymchwilio yn ystyried achosion o weithredu'n groes i'r safonau ymddygiad. Bydd y panel yn cael ei ffurfio gan Reolwr Adran priodol gan ystyried natur y camymddygiad honedig, a bydd fel rheol yn cynnwys:

- a. Rheolwr yr Adran
- b. Dau Swyddog Ymddiriedolwr heb gynnwys y Llywydd

12.2 Bydd y panel ymchwilio yn ceisio cynnal ymchwiliad i unrhyw ymddygiad honedig sy'n groes i'r safonau angenrheidiol. Wrth wneud hynny gall y panel ofyn am wybodaeth gan aelodau, staff yr Undeb neu'r Brifysgol neu drydydd parti.

12.3 Bydd crynodeb o'r honiad yn cael ei roi ger bron yr unigolion dan sylw, cyn i'r panel gwrdd â nhw er mwyn deall unrhyw safbwynt arall.

12.4 Bydd y panel yn cwrdd â phartion eraill yn ôl eu disgrisiwn lle maen nhw'n credu y gallai unigolyn fod wedi bod yn dyst i unrhyw ddiwyddiad.

12.5 Lle mae'r panel yn cwrdd â myfyrwyr, mae gan unrhyw fyfyrwr hawl i fynd â chyd-fyfyrwr gyda nhw am gefnogaeth.

12.6 Yn achos cwyn a wneir yn erbyn grŵp o fyfyrwr, clwb neu gymdeithas, bydd y llywydd neu'r cadeirydd (neu enwebai) yn cynrychioli'r grŵp, y clwb neu'r gymdeithas.

12.7 Os yw unigolyn (neu gynrychiolydd grŵp myfyrwr) a honnir iddo fod wedi torri'r safonau ymddygiad hyn yn methu â mynychu cyfarfod gyda rheswm da am hynny, gellir gohirio'r cyfarfod. Os yw'r panel yn teimlo bod yr unigolyn wedi methu â mynychu dau gyfarfod a drefnwyd heb achos rhesymol, yna bydd yr ymchwiliad yn parhau hebddynt.

12.8 Rhaid i'r panel:

- a. barnu'r gŵyn a phenderfynu, ar sail tebygolrwydd, a yw unigolyn neu grŵp wedi gweithredu yn y modd a honnir
- b. cadarnhau a yw hyn yn mynd yn groes i safonau ymddygiad disgwylidig aelodau neu'r rheiny sy'n cyfranogi mewn gweithgaredd
- c. gwneud penderfyniad ar unrhyw gamau o ganlyniad i hyn

12.9 Yn ystod y cyfnod rhwng cychwyn y broses hon a phenderfyniad y panel, bydd gan y troseddwr honedig, yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Adran, fynediad at wasanaethau neu gyfleusterau sydd wedi'u hatal, cyn belled ag y bo hynny'n angenrheidiol er mwyn cynnal ymchwiliad effeithiol. Dylid ystyried hyn mewn perthynas â'r risg o niwed neu ofid i staff neu fyfyrwyr neu lle byddai'n bosibl y gallai parhau i gael mynediad i wasanaeth neu gyfleuster effeithio ar ymchwiliad effeithiol.

13. Llwybrau Gweithredu

13.1 Bydd y panel yn penderfynu, ar ôl rhoi ystyriaeth i dystiolaeth briodol gan bob parti, a yw unigolyn neu grŵp wedi gweithredu'n groes i'r safonau ymddygiad disgwylidig. Mewn achos lle ystyrir bod hyn wedi digwydd, caiff y panel gymryd camau priodol a all gynnwys:

- a. cerydd ysgrifenedig; a / neu
- b. atal unrhyw rai, neu bob un, o'r breintiau sy'n perthyn i aelodaeth o'r Undeb, na fydd yn cynnwys diswyddo unrhyw berson a etholwyd drwy bleidlais draws-campws; a / neu
- c. gwaharddiad am oes, a fydd yn golygu gwaharddiad cyfangwbl o adeiladau'r Undeb ar unrhyw adeg. Ni fydd hyn yn ymyrryd ag arholiadau allanol sy'n digwydd yn yr Undeb; a / neu
- d. ataliad parhaol neu dros dro o unrhyw fanteision, neu bob un ohonynt, sy'n perthyn i aelodaeth o'r Undeb fel grŵp, clwb neu gymdeithas; a / neu
- e. ni ellir gosod dirwy ariannol ond mewn achos lle mae cost yn perthyn i drwsio neu adfer unrhyw ddi-frod neu wneud iawn am golled a ddi-ddedfwyd gan yr Undeb o ganlyniad i weithredoedd yr aelod, y grŵp, y clwb neu'r gymdeithas; a / neu
- f. os cyflawnir y drosedd gan aelod sy'n Fyfyrwr ac os yw'r drosedd yn ddigon difrifol, gellir cyfeirio'r Myfyrwr at God Ymddygiad Myfyrwyr y Brifysgol. Unwaith y

bydd y Brifysgol yn cael gwybod am hyn, gall y Myfyriwr fod yn atebol dan Weithdrefnau Disgyblaeth y Brifysgol; a / neu
g. Cynnig o ddiffyg hyder ym Mhwyllgor presennol y grŵp myfyrwyr, yn dod i rym ar unwaith (bydd grwpiau'n cael cymorth i ail-ethol rolau allweddol yn yr achos hwn).
f. gollwng yr honiadau.

14. Amserlen

14.1 Dylai'r panel geisio sicrhau bod ymchwiliad yn digwydd yn ddioed. Byddai hyn fel rheol yn golygu ceisio dod i benderfyniad a chyfathrebu'r canlyniadau i'r unigolion neu'r grwpiau dan sylw o fewn 21 diwrnod.

15. Apeliadau

15.1 Gall yr unigolyn neu'r grŵp y dyfarnwyd yn eu herbyn wneud apêl ar y sail ganlynol:

- a. Nid yw'r broses Gwynion wedi dilyn y weithdrefn gywir a / neu;
- b. Daeth gwybodaeth newydd i'r golwg na ellid bod wedi'i chyflwyno am reswm da yn ystod y Broses Gwynion ar adeg yr ymchwiliad gwreiddiol; a / neu
- c. Mae'r camau a weithredwyd o ganlyniad i'r ymchwiliad yn anghymesur.

15.2 Dylid cyflwyno apêl mewn ysgrifen i Lywydd Undeb y Myfyrwyr o fewn 7 diwrnod calendr o dderbyn canlyniad yr ymchwiliad.

15.3 Ymdrinnir â phob apêl yn unol ag Adran C o Atodlen 3.

Adran C

Proses Apêl Undeb Myfyrwyr Aberystwyth

16. Rhagarweiniad

16.1 Dylid defnyddio'r broses hon i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir o dan y broses Gwynion neu Ddisgyblaeth.

16.2 Mae'r sail ar gyfer apêl fel a ganlyn:

- a. Nid yw'r broses Gwynion neu Ddisgyblaeth wedi dilyn y weithdrefn gywir; a / neu
- b. Mae gwybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg na ellid bod wedi'i chyflwyno am reswm da yn ystod y Broses Gwynion neu Ddisgyblaeth ar adeg yr ymchwiliad gwreiddiol a / neu
- c. Mae'r camau a weithredwyd o ganlyniad i'r ymchwiliad yn anghymesur.

16.3 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y broses Apeliadau yn ailystyried tystiolaeth sy'n bodoli eisoes i ailasesu canlyniad yr ymchwiliad gwreiddiol.

17. Cyflwyno Apêl

17.1 Dylid cyflwyno apeliadau mewn ysgrifen i Lywydd Undeb y Myfyrwyr (prdstaff@aber.ac.uk) o fewn 7 niwrnod calendr o'r unigolyn neu'r grŵp yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad y broses Gwynion neu Ddisgyblaeth.

17.2 Dylai'r apêl gynnwys datganiad o'r sail ar gyfer yr apêl ac o'r ffeithiau a'r materion y dibynnir arnynt.

18. Panel Apeliadau

18.1 Bydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn ffurfio panel, a fydd fel rheol yn cynnwys:

- a. Llywydd Undeb y Myfyrwyr:
- b. Un Swyddog Ymddiriedolwr
- c. Rheolwr Adran

18.2 Ym mhob achos, ni ddylai aelodau'r panel a ddewiswyd fod wedi ymwneud â'r ymchwiliad cychwynnol.

19. Y Panel

19.1 Bydd y panel yn adolygu'r apêl a gyflwynwyd ac yn penderfynu a ganiateir apêl o dan yr amodau a restrir uchod.

19.2 Gall y panel ofyn am wybodaeth gan unrhyw un perthnasol er mwyn penderfynu a ellir cadarnhau unrhyw un o'r amodau uchod.

19.3 Ym mhob achos sy'n cael ei apelio, pan gyhoeddir hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y panel, os yw'r apelydd yn Aelod sy'n Fyfyriwr, rhaid tynnu sylw'r unigolyn at y broses gwynion annibynnol bellach a gynigir gan y Brifysgol yn unol â'r Cod Ymarfer rhwng yr Undeb a'r Brifysgol. Nid yw'r cam pellach hwn ar gael i Aelodau Cyswllt, Aelodau Am Oes neu Aelodau er Anrhydedd.

20. Amserlen

20.1 Fel arfer, daw'r panel Apeliadau ynghyd o fewn 21 diwrnod ar ôl derbyn yr apêl. Fel rheol, bydd y panel apeliadau'n ceisio dod i benderfyniad a'i gyfathrebu i'r apelydd o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod cyntaf.

20.2 Pan fydd yr apelydd yn mynychu cyfarfod â'r Panel Apeliadau, bydd ganddynt hawl i ddod â chyd-fyfyriwr gyda nhw am gefnogaeth.

Mae gan yr apelydd yr hawl i gyflwyno ei achos yn bersonol neu'n ysgrifenedig i'r Panel Apeliadau.

21. Deilliannau

21.1 Bydd y Panel Apeliadau ar ddiwedd ei ymchwiliad naill ai'n cadarnhau'r apêl yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol, yn gwneud argymhelliad ar gyfer datrysiadau neu'n gwrthod yr apêl.

21.2 Bydd gan y panel Apeliadau'r un canlyniadau posibl ar gael iddynt â'r Paneli Cwynion neu Ddisgyblaeth.